HAVANA

‘Rwy ti ffeili penderfynu
Ffili dewis – hyd y gwn i
Be’ sy’n dda a be’ sy’n estron
Be’ sy’n ddrwg a be’ sy’n wirion.

'Rwy ti’n dweud dy fo’ ti’n barod
Addewidion ar dy dafod
Gwn dy fod yn magu bwriad
Does dim son am y gweithrediad

Ddylen' i fynd i Habana
Fydd ‘na groeso cynnes yna
Fe gei di focsed cyfan o
Montecristo Especial
A gawn ni wylio’r mwg yn diflannu
I’r machlud ‘da’n gilydd.

Wedes’ di fo ti wedi bod ‘ma
Blynydde ‘nol, cyn i neb ddod ‘ma
Ti o’dd y cynta’ ar y tra’th ‘ma
O’dd rhaid i ti weud rh’w beth felna?

‘Rwy ti lawr ar dy benglinie
Clywed adlais y cadwyne
Ti oedd un a fu mor hardd
Yn casglu blode yn yr ardd.

© Geraint Griffiths 2007